# PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS SENEDD CYMRU
# Rhwystrau rhag gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus

## Ymateb i'r ymgynghoriad - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion

### Cefndir

Ym mis Mai 2020, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol eu hadroddiadau statudol fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf"). Mae'r adroddiadau'n crynhoi'r gwaith y maent wedi ei gyflawni o dan y Ddeddf rhwng mis Mai 2017 a mis Mai 2020. Mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd yn cynnal ymchwiliad i'r adroddiadau hyn.

### 1. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf a'i goblygiadau.

Yn gyffredinol, teimlir bod gan Gyrff Cyhoeddus ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda o'r Ddeddf a'i goblygiadau. Fodd bynnag, teimlir nad yw ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r Ddeddf gystal. Mae sefydliadau'r Sector Gyhoeddus ar draws y Sir wedi cynnal nifer o weithdai a sesiynau hyfforddi i staff ynglŷn â gofynion y Ddeddf a'r hyn y mae'n ei olygu yn ymarferol. Mae Cynllun Llesiant Lleol y BGC yn dangos y ddealltwriaeth eang o'r Ddeddf ar draws cyrff y Sector Cyhoeddus yng Ngheredigion.

### 2. Yr adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus er mwyn gweithredu'r Ddeddf a pha mor effeithiol y cawsant eu defnyddio.

Nid oes unrhyw gyllid ar gael i Gyrff Cyhoeddus weithredu'r Ddeddf. Felly, mae'r rhan fwyaf o gyrff wedi defnyddio adnoddau staff presennol i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf, ynghyd â defnyddio dogfennau canllaw ac enghreifftiau o'r arferion gorau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

### 3. Cymorth a ddarperir i gyrff cyhoeddus gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r holl gymorth a ddarparwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol hyd yn hyn wedi cael ei groesawu, er bod rhai o'r deunyddiau a gynhyrchwyd yn ddiweddar wedi bod yn anodd eu deall. Mae gwrthdaro rhwng elfen orfodi rôl y Comisiynydd a'r elfen gymorth, cyngor ac ymgysylltu, ac efallai y byddai'n well gwahanu'r rhain yn y dyfodol. Byddem yn croesawu rôl fentora 'gweithio gyda'n gilydd' wrth symud ymlaen.

**4. Rôl arwain Llywodraeth Cymru.**
Teimlir bod adrannau Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio mewn seilos ac mae angen i hyn wella'n sylweddol cyn y gellir ymgorffori'r Ddeddf ar draws y Gwasanaeth Cyhoeddus. Nid yw'r natur adrannol/seilo yn ogystal â chyfnod byr grantiau Llywodraeth Cymru yn darparu tirlun effeithiol ar gyfer dulliau arloesol o wneud gwaith ataliol tymor hir. Mae diffyg integreiddio prosesau a deddfwriaethau gan Lywodraeth Cymru yn effeithio ar ein gallu i gynllunio ar gyfer y tymor hir.

**5. Unrhyw rwystrau eraill rhag gweithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus (e.e. Brexit, COVID, ac ati).**
Mae cylchoedd cyllidebau blynyddol, cylchoedd etholiadol, pwysau oherwydd llymder a newidiadau i wasanaethau cyhoeddus yn ei gwneud yn anodd meddwl yn y tymor hir. Mae'n anodd bod â'r capasiti i arloesi pan rydym yn rheoli galw cynyddol. Yn ogystal, nid yw'r modd y caiff llwyddiant ei fesur yn ddefnyddiol - mae hyn yn canolbwyntio ar allbynnau tymor byr yn bennaf yn hytrach na chanlyniadau tymor hwy ac atal problemau. Mae'n heriol sicrhau'r cydbwysedd rhwng atebolrwydd am gyflawni'r Ddeddf a chaniatáu lle i gyflawni'r newidiadau sydd eu hangen i'w weithredu. Yn ogystal â'r rhwystrau a nodir uchod, mae'r pandemig presennol yn golygu y bydd mwy o bwysau'n cael eu rhoi ar adnoddau sydd eisoes yn brin iawn.

**6. Sut i sicrhau y gweithredir y Ddeddf yn llwyddiannus yn y dyfodol.**
Mae cyllid hirdymor ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chyrff cyhoeddus ynghyd ag arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru yn hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant y Ddeddf. Mae'r tirlun gweithredu yn gymhleth iawn, felly mae angen gwelliannau i lywodraethu a seilwaith. Mae angen i gyfathrebu o amgylch y Ddeddf wella hefyd er mwyn helpu gyda'r newid ymddygiad sydd ei angen cyn y gall y Ddeddf lwyddo i gyflawni ei ddyheadau hirdymor.